# John Sturrock QC

*12/09/2012*

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 20 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn

*1 - Pob gohebiaeth â John Sturrock QC a phob gohebiaeth sy'n ymwneud ag ef*
*2- Sawl sesiwn hyfforddiant y mae John Sturrock QC wedi'i gynnal gydag Aelodau'r Cynulliad*
*3 - Faint y mae John Sturrock QC wedi cael ei dalu gan Gomisiwn y Cynulliad*
*4 - Y cylch gorchwyl yn ymwneud â gwaith John Sturrock QC*

Byddaf yn ymateb i bob rhan o'ch cais isod.

**C 2 a 3** - Darparwyd yr hyfforddiant gan John Sturrock QC, sylfaenydd a phrif swyddog gweithredol Core Solutions. Amrywiwyd y sesiynau yn dibynnu ar yr angen a nodwyd ar gyfer yr hyfforddiant. Darparwyd y sesiynau i bwyllgorau trawsbleidiol, staff cymorth grwpiau pleidiau ac Aelodau unigol y Cynulliad. Defnyddiwyd amrywiaeth o dechnegau yn y sesiynau, gan gynnwys cyflwyniadau traddodiadol, adolygiadau cyfoedion, trafodaeth a dysgu rhyngweithiol, adborth fideo, gweithdai ymarferol a hyfforddi gweithredol. Mae John Sturrock yn arweinydd cydnabyddedig yn y meysydd hyfforddiant hyn.

Cafodd pob sesiwn ei theilwra i ddiwallu'r anghenion a nodwyd gan y rhai a oedd yn cymryd rhan. Gwnaeth yr hyfforddwr lawer iawn o waith paratoi cyn pob sesiwn. Cyfanswm y taliadau a wnaed i Core Solutions ar gyfer cynllunio, datblygu, paratoi a chyflwyno'r 10 sesiwn hyfforddiant oedd £10,500.

**C4** Cafodd y sesiynau unigol a gyflwynwyd gan John Sturrock QC eu datblygu yn unol â'r amcanion penodol a nodwyd gan y rhai a oedd yn cymryd rhan.

Nod yr hyfforddiant oedd rhoi hyfforddiant wedi'i deilwra'n unigol ar dechnegau craffu i Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth. Mae'r sesiynau hyn, a gyflwynwyd i bwyllgorau trawsbleidiol, grwpiau pleidiau, staff cymorth ac

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk

Aelodau unigol, wedi canolbwyntio ar gryfhau'r gwaith o graffu ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, sef prif swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**C1** – Mae rhan gyntaf eich cais yn gofyn am bob gohebiaeth â John Sturrock QC a phob gohebiaeth yn ymwneud ag ef. Gallwn gadarnhau bod gennym ohebiaeth o'r fath. Mae'r cynnwys wedi'i grynhoi'n rhannol uchod. Fodd bynnag, yn ogystal, mae gohebiaeth fewnol amrywiol, rhwng staff y Cynulliad a rhyngddynt hwy ac Aelodau'r Cynulliad a'u staff, a rhwng staff y Cynulliad a Mr Sturrock. Mae'r ohebiaeth yn cynnwys trafodaethau manwl yn ymwneud â chynnwys a darpariaeth yr hyfforddiant dan sylw.

Byddai datgelu'r wybodaeth hon, ym marn Llywydd y Cynulliad fel yr "unigolyn cymwys" o dan adran 36(5) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn atal, neu'n debygol o atal, y ddarpariaeth o gyngor rhydd ac agored, a'r gallu i gyfnewid barn yn rhydd ac agored at ddibenion trafodion, neu byddai fel arall yn gwneud drwg neu'n debygol o wneud drwg, i'r broses o weithredu materion cyhoeddus yn effeithiol.

Rydym hefyd o'r farn, ar ôl ystyried natur yr ohebiaeth dan sylw, nad oes digon o ddiddordeb cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth i gyfiawnhau datgymhwyso'r eithriad dan sylw.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.  Cyhoeddir y wybodaeth hon ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-commission.htm
Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn.  Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

<u>A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?</u>

Os nad ydym wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydym wedi cadw at y deddfau perthnasol, gallwch wneud cwyn swyddogol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir manylion ynghylch egwyddorion cwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymddygiad ar Gwyno sydd ar gael ar y fewnrwyd yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm Rhowch wybod os ydych am gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol am benderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**